# EVANS, ROBERT TROGWY (1824 - 1901), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Robert Trogwy Evans
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1901
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd ym mhlwyf Trefeglwys, sir Fôn. Fe'i trwyddedwyd i bregethu yn 1849 a chafodd ei addysg yng Ngholeg y Bala o dan Michael Jones (yr hynaf). Bu'n fugail eglwys Annibynnol Gymraeg yn Manchester; ordeiniwyd ef yno 12 Medi 1853. Wedi bod yno am bedair blynedd aeth yn weinidog ar eglwys yn Greenfield, Sir y Fflint. Ymfudodd i U.D.A. yn 1870; yno bu'n weinidog yn Remsen, talaith New York, gan ddilyn Morris Roberts, ac ar ôl aros yno am 11 mlynedd aeth i Oskosh, Wisconsin, yn 1881, i weinidogaethu. Cyhoeddodd *Myvyrdodydd Ieuanc* (llyfr ar ddirwest), *Y Ddiwioleg* (Utica, 1873), cân faith iawn, *Marwnadau ... Robert Everett ... a Morris Roberts ...* (Remsen, *c.* 1878), a *Y Bedydd Cristionogol*. Bu'n ddadleuwr selog yng Nghymru dros ddirwest ac ysgrifennodd rai caneuon ac emynau dirwestol. Bu farw yn 1901.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*The Cambrian*, 1884, 332

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1902, 271


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 56559221

Wikidata: Q20734367


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu